
# Croeso i YHA

## Pecyn recriwtio Ymddiriedolwyr 2024



# Ni yw YHA

Rydym yn credu yng ngrym teithio ac antur i gysylltu pobl â'i gilydd, â natur, yr awyr agored, diwylliant a threftadaeth.

Ers 1930, mae YHA wedi rhedeg rhwydwaith unigryw o hosteli ledled Cymru a Lloegr - cymuned o fannau a rennir sy'n agored i bawb ac er budd pawb, yn enwedig pobl ifanc.

Rydym yn cynnig anturiaethau cynhwysol, mewn adeiladau hynod, mewn lleoedd rhyfeddol – ac yn croesawu mwy na filiwn o bobl bob blwyddyn. Ond rydym yn cynnig llawer mwy na dim ond llety.

Mae YHA yn ddarparwr arosiadau preswyl blaenllaw yn y sector, yn hyrwyddwr dros wirfoddoli cynhwysol a phrofiad gwaith, ac yn gyflogwr Buddsoddwyr mewn Pobl lefel Aur.

Rydym yn fenter gymdeithasol fawr sy'n arwain y ffordd o ran twristiaeth gynaliadwy a meithrin partneriaethau sy'n cael effaith ar draws nifer o sectorau ac ar bob lefel - yn ein cymunedau, yn ein rhanbarthau, ac yn genedlaethol.

Dros 90 o flynyddoedd ar ôl ein dechreuad arloesol, mae ein hegwyddorion sefydlol a'n penderfyniad i gyflawni daioni cymdeithasol yn parhau i fod wrth galon yr hyn a wnawn.

**Ni yw YHA.**

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi.**



# Gweledigaeth

## Bod pawb yn gallu manteisio ar fuddion antur, am y tro cyntaf ac am oes.

Erbyn 2030, gall pob plentyn aros oddi cartref, teithio, profi antur a'r awyr agored, natur, diwylliant a threftadaeth. Bydd YHA yn gweithio gydag eraill i roi terfyn ar yr anghydraddoldeb sy'n golygu nad yw rhai plant erioed wedi bod i draeth, ymweld ag amgueddfa na rholio i lawr bryn.

# Cenhadaeth


Cyfoethogi bywydau pawb, yn enwedig pobl ifanc, drwy ddarparu arosiadau gwych mewn hosteli a phrofiadau sy'n gwella iechyd corfforol, lles meddyliol a sgiliau bywyd.

## Amcanion elusennol

Helpu pawb, yn enwedig pobl ifanc ag incwm cyfyngedig, i gael mwy o wybodaeth am gefn gwlad a'i hoffi a gofalu amdano'n fwy a gwerthfawrogi gwerthoedd diwylliannol trefi a dinasoedd yn fwy, yn enwedig drwy ddarparu hosteli ieuenctid neu lety arall iddynt yn ystod eu teithiau, ac felly hybu eu hiechyd, eu hamdden a'u haddysg.

Gallwch ddysgu mwy am YHA, ein hanes, strategaeth a'n heffaith ar yha.org.uk/about-yha.


















# Helo

Fi yw Margaret Hart, Cadeirydd Bwrdd YHA ers 2019.

Diolch am ddangos diddordeb mewn bod yn Ymddiriedolwr i'r elusen anhygoel hon. Mae YHA yn sefydliad mawr, cyfeillgar â chalon enfawr ac ymdeimlad gwych o bwrpas. Bob blwyddyn, rydym yn gwneud gwahaniaeth i bron miliwn o bobl – yn cynyddu'r mynediad at antur i bawb ac yn ymfalchïo yn yr effaith penodol a gawn ar bobl ifanc.

Fel y gwyddom, mae'r blynyddoedd diwethaf wedi bod yn anodd i'n buddiolwyr, elusennau a'r gymdeithas gyfan – wrth inni lywio trwy waddol y pandemig ac effaith gynyddol prisiau'n codi a'r argyfwng costau byw.

Er y sefyllfa ariannol heriol, mae'n bleser gen i adrodd bod YHA wedi cyflawni Blwyddyn 1 ei Chynllun Adfer. Rhoddodd hyn sail fwy cadarn i'r elusen, ac rydym ar ein ffordd yn ôl at gael arian dros ben fel ein bod ni'n gallu cyrraedd ac effeithio ar fywydau hyd yn oed mwy o bobl.

Drwy gyfuniad o arbedion cost, twf a chyflawni ein strategaeth rhwydwaith hosteli, rydym yn symud at gyflawni ein cynllun tair blynedd i sicrhau cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Ar yr un pryd, rydym yn cyflenwi rhaglenni effaith sy'n arwain y sector ac wedi cymryd camau mawr ymlaen at arallgyfeirio mynediad eleni.

P'un a yw'n ariannu arosiadau preswyl i blant sy'n agored i fethu allan ar ddysgu awyr agored dan gynllun Heb Adael Unrhyw Blentyn ar ôl; rhaglen aelodaeth arloesol Dinasyddion yr Awyr Agored sy'n cefnogi sefydliadau llawr gwlad i dyfu eu heffaith mewn cymunedau heb wasanaethau digonol; neu ein digwyddiadau Gŵyl Cerdded a anelir at dyfu hyder dechreuwyr i fwynhau tirweddau sy'n ysbrydoli, rydym yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i blant, pobl ifanc a theuluoedd o gefndiroedd ehangach eto fyth, a'r rhai sy'n cael trafferth mewn amodau fwyfwy anodd yn benodol.

Mae'n amser gwirioneddol gyffrous i fod yn Ymddiriedolwr ac i adael eich ôl ar elusen sy'n gwneud cyfraniad hanfodol i gymdeithas. Dymunaf bob hwyl ichi gyda'ch cais i ymuno â'n Bwrdd egnïol a chydweithredol.



Margaret Hart, Cadeirydd






# Ein diwylliant

Mae'r broses o ddod yn Ymddiriedolwr yn rhoi boddhad a mwynhad mawr iawn. Yn enwedig am ei fod yn rhoi cyfle i helpu i lywio cyfeiriad YHA yn unol â'n gwerthoedd. Mae'n cynnig y cyfle i gwrdd a gweithio gyda phobl tu allan i'ch sector neu'ch profiad pob dydd chi.

Ein 15 o Ymddiriedolwyr sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol cyffredinol am yr elusen. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu a goruchwylio'r broses o roi ein strategaeth ar waith ac am lywio gwaith yr elusen mewn perthynas â meysydd megis effaith, cyllid, rheoli risg, adeiladau ac eiddo, lletygarwch a pherfformiad sefydliadol. Mae cefndiroedd amrywiol aelodau ein Bwrdd yn ysgogi cyfoeth o drafodaethau, lle bydd pob aelod o'r Bwrdd yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr.

Mae mynediad i bawb wrth galon yr elusen fawr genedlaethol hon. Fel aelod o'r Bwrdd, byddwch yn ymuno â diwylliant cynhwysol lle caiff safbwyntiau gwahanol eu croesawu a'u parchu; lle caiff penderfyniadau eu gwneud mewn amgylchedd ymddiriedus a chyd-barchus ac mae dadlau iach yn rhan o'r broses.

Os yw'r diwylliant hwn yn cydweddu â'ch gwerthoedd chi, hoffem ddweud mwy wrthych.



# Cwrdd â rhai o'n Hymddiriedolwyr

Dyma beth oedd gan rai o'n Hymddiriedolwyr i'w ddweud am yr effaith caiff YHA ar gymdeithas, a'r boddhad a ddaw o fod yn aelod o'r Bwrdd.

G

**"Mae'n rhoi i bobl ifanc y cyfle i gael antur, i gwrdd â phobl eraill, i ddod i adnabod eu hunain yn dda, ac i adnabod yr amgylchedd maen nhw'n byw ynddo. Mae'n lle diogel braf lle gallwch ddarganfod pethau go iawn, a dechrau meddwl sut rydych chi eisiau byw fel person a gwneud eich cyfraniad."**

Graham

S

**"Cewch foddhad personol o fod yn Ymddiriedolwr. Cewch wefr o ddatrys yr heriau sydd gan y sefydliad - o ran rheoli rhwydwaith helaeth o hosteli a hefyd o sicrhau y caiff y bobl ifanc y budd mwyaf posibl yn eu bywydau."**

Simon

R

**"Mae YHA yn gwneud gwaith anhygoel i greu profiadau bythgofiadwy – sy'n arbennig o bwysig o gofio'r heriau sy'n wynebu cymaint o bobl ifanc heddiw. Mae bod yn Ymddiriedolwr wedi rhoi imi'r cyfle i gyfrannu at y gwaith hanfodol hwn ochr yn ochr â'm cyd-aelodau ar fwrdd amrywiol ac aml-dalentog. Gyda'n gilydd, rydyn ni'n helpu i adeiladu YHA cryfach i'r dyfodol, i wneud ein slogan yn wirionedd i fwy o bobl ifanc eto fyth: oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi."**

Rob

# Gallai'r rôl hon fod yn ddelfrydol i chi

Rydyn ni'n chwilio am ymgeiswyr sy'n cefnogi ein hamcan elusennol i'r carn.

Fel Ymddiriedolwr, byddwch yn canolbwyntio ar wella mynediad i antur i bawb – a phobl ifanc yn enwedig - ac yn gweithredu fel llysgennad dros YHA. Hoffem i'r Ymddiriedolwyr newydd wybod pryd a sut i herio a chefnogi'r tîm gweithredol. Os oes gennych y weledigaeth, brwdfrydedd a sgiliau cyfathrebu cryf sydd eu hangen i ddylanwadu ar benderfyniadau'r Bwrdd, hoffem glywed gennych.

Bydd yn brofiad gwerthfawr os ydych chi wedi cymryd rhan mewn grwpiau cymunedol, paneli, cynghorau, undebau, cymdeithasau neu bwyllgorau lleol o'r blaen. Ond nid oes rhaid ichi fod wedi bod yn aelod o Fwrdd i ymgeisio.



# Mae amrywiaeth wirioneddol yn ein gwneud ni'n sefydliad cryfach

Mae Bwrdd YHA wedi ymrwymo i adlewyrchu'r cymunedau a'r gymdeithas a wasanaethwn. Credwn fod amrywiaeth wirioneddol yn ein gwneud ni'n sefydliad cryfach, a dyna pam mae diddordeb gennym mewn pwy ydych chi. Mae eich profiadau byw a'ch gwerthoedd yr un mor bwysig â'ch cyflawniadau proffesiynol.

Er mwyn adlewyrchu ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant, croesawn geisiadau gan bobl o bob cefndir. Hoffem annog yn arbennig i grwpiau penodol sy'n debygol o gael eu tangynrychioli yn ein sefydliad i ymgeisio.

Mae'r grwpiau'n cynnwys:

- pobl ifanc
- pobl anabl neu niwrowahanol
- pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig
- pobl heb gymhwyster academaidd
- pobl LHDTCRhA+

# Profiad strategol

Yn anad dim, rydym yn chwilio am bobl sydd â'r sgiliau a'r profiad i lywio a herio cyfeiriad strategol y sefydliad cyfan.

Eleni, rydym yn ceisio'n arbennig i ymestyn sylfaen sgiliau'r Ymddiriedolwyr drwy ddenu, cymaint â phosibl, ymgeiswyr a all gyfrannu'n ychwanegol at o leiaf un o'r meysydd canlynol:

- profiad yn y sectorau lletygarwch, hamdden, masnachol neu dwristiaeth – yn enwedig os ydych wedi helpu i lunio neu reoli ymagwedd y sefydliad
- profiad strategol o eiddo a gafwyd mewn amgylchedd aml-safle a oedd yn cynnwys eiddo tiriog hanesyddol, preswyl, masnachol, diwydiannol neu dir
- profiad strategol o TG, seiberddiogelwch a diogelu data

Nid oes arnoch angen yr holl briodoleddau dymunol hyn i wneud cais. Rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â phrofiadau gwaith a bywyd perthnasol a'r rhai sydd â'r angerdd i wneud gwahaniaeth gyda YHA.

Mae YHA wedi ymrwymo i gynnal a hyrwyddo cydraddoldeb a thriniaeth deg i bawb. Darllenwch ein polisi recriwtio mwy diogel yn jobs.yha.org.uk/safer-recruitment-policy.

---

Rydym yn sylweddoli y gall bod yn Ymddiriedolwr olygu costau ariannol megis teithio neu gost talu am ofal. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau na fydd y costau hyn yn rhwystr i ymgeisio nac i gyflawni rôl Ymddiriedolwr.

# Yr hyn a ofynnnwn gennych

Bydd ymuno â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn swydd hybrid o gyfrifoldebau ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol y flwyddyn. Mae angen ymrwymiad sylweddol o amser gan gynnwys paratoi ar gyfer, a mynychu:

- tri chyfarfod Bwrdd wyneb yn wyneb, a gynhelir dros benwythnosau mewn hostel YHA yng Nghymru neu Loegr
- ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol (ar-lein) ac un cyfarfod rhithiol o'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn (cynhelir y ddau gyfarfod ar ddydd Sadwrn)
- cyfarfodydd ychwanegol o'r Bwrdd drwy delegynadledda yn achlysurol
- is-bwyllgor, fel arfer â phedwar cyfarfod ar-lein bob blwyddyn

Ar wahân i'r cyfarfodydd allweddol hyn, mae Ymddiriedolwyr hefyd yn gwneud cyfraniadau parhaus eraill ac yn cynrychioli YHA mewn digwyddiadau yn achlysurol. Bydd hefyd angen i recriwtiaid newydd gwblhau ein rhaglen sefydlu Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys sesiynau ar-lein i gyd-fynd â'ch amserlen chi (cyfanswm o oddeutu chwe awr), a sesiwn hanner diwrnod wyneb yn wyneb yn ein rhwydwaith gyda'n rheolwyr busnes rhanbarthol. Mae hyfforddiant parhaus mewn meysydd yn cynnwys diogelu hefyd yn ofynnol.



# Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Mae cyfrifoldebau cyfreithiol yn rhan o'r gwaith o fod yn Ymddiriedolwr. Mae popeth a wneir gan y Swyddogion Bwrdd neu'r Ymddiriedolwyr yn cael ei wneud ar ran y Bwrdd, ac mae'r holl Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am benderfyniadau'r Bwrdd.

Mae Erthyglau Cymdeithasiad y Cwmni yn llywodraethu eu hymddygiad. Cyfrifoldeb yr holl Ymddiriedolwyr yw sicrhau y caiff achosion o wrthdaro buddiannau eu canfod wrth iddynt godi. Dylent hefyd eu nodi cyn gwneud unrhyw benderfyniadau, a'u cofnodi yn unol â pholisi Gwrthdaro Buddiannau YHA. Rhoddir copi o'r polisi hwn i'r ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer a gofynnir iddynt lenwi ffurflen Datgan Gwrthdaro Buddiannau cyn y cyfweliad.

Mae dyletswydd ar y Bwrdd i sicrhau bod y rhai a benodir yn gymwys i fod yn Ymddiriedolwyr. Bydd y Bwrdd yn cadw'r hawl i wirio cymhwystra, ynghyd â gofyniad YHA y dylai'r holl Ymddiriedolwyr gael gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Dylech nodi: Mae'r Ddeddf Elusennau yn anghymhwyso pobl rhag bod yn Ymddiriedolwyr:

- os oes ganddynt euogfarnau heb eu disbyddu am droseddau fel y nodir yn y Ddeddf Elusennau (Gwarchod a Buddsoddi Cymdeithasol) 2016
- os ydynt yn fethdalwyr nas rhyddhawyd
- os ydynt wedi gwneud trefniant gyda chredydwyr ac nad ydynt wedi cael eu rhyddhau (bydd hyn yn cynnwys trefniant gwirfoddol unigol)
- os ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn anghymhwyso o dan Ddeddf Anghymhwyso Cyfarwyddwyr Cwmnïau 1986 neu i orchymyn a wnaed o dan adran 429 (2) (b) o Ddeddf Ansolfedd 1986
- os ydynt wedi cael eu diswyddo o fod yn Ymddiriedolwyr elusen arall trwy orchymyn a wnaed gan y Comisiwn Elusennau neu'r Uchel Lys.





# Strwythur llywodraethu YHA

Mae aelodau'r Bwrdd Ymddiriedolwyr sy'n pleidleisio yn cynnwys y grwpiau canlynol:

a. tri Swyddog Cenedlaethol (y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd, y Trysorydd)
b. hyd at 12 aelod a etholwyd gan aelodau YHA
c. hyd at ddau aelod cyfetholedig

Caiff aelodau'r Bwrdd eu hethol am gyfnod swydd o bedair blynedd. Ar ôl y cyfnod swydd cyntaf, mae Ymddiriedolwyr yn gymwys i wneud cais i gael eu hailethol am un cyfnod arall o bedair blynedd. Edrychwn ymlaen at gwrdd â'n Hymddiriedolwyr newydd a'u helpu i ymgynefino â YHA. I'w croesawu nhw i'r Bwrdd, byddwn yn eu paru gyda mentor sy'n Ymddiriedolwr a bydd rhaglen sefydlu lawn.

Darllenwch am ein Hymddiriedolwyr presennol yn yha.org.uk/about-yha/board-trustees

Gwyliwch ein fideo yn esbonio'r rôl gwerth chweil hon (sganiwch y cod QR isod)

Sganiwch y cod QR i wylio'r fideo

Darllenwch fwy am lywodraethu YHA yn yha.org.uk/about-yha/governance

# Sut i ymgeisio

Nid oes rhaid ichi fod yn aelod o YHA i ymgeisio i fod yn Ymddiriedolwr. Fodd bynnag, i gael eich ethol bydd angen ichi ddod yn Aelod Cyswllt o YHA cyn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ar ddydd Sadwrn 9 Tachwedd 2024.

Mae cais llawn yn cynnwys:

- eich CV – hyd at ddwy dudalen yn cyflwyno crynodeb byr o'r sgiliau a'r profiad sy'n debyg o fod o werth i YHA, profiad byw, addysg a chymwysterau, hanes cyflogaeth, diddordebau a gweithgareddau cyffredinol
- cais ar-lein, sy'n cynnwys eich manylion personol, proses monitro amrywiaeth a datganiad ymgeisydd

Os oes angen cymorth arnoch gyda'r broses ymgeisio, neu os hoffech gyflwyno'ch cais mewn fformat gwahanol, cysylltwch â trusteerecruitment@yha.org.uk.

# Cyflwyno eich cais

Er mwyn cadw at ein harferion recriwtio mwy diogel, rhaid cyflwyno'r holl geisiadau trwy ein Porth Ymgeiswyr. Fe welwch ddolen i'r rôl ar ein gwefan swyddi sef jobs.yha.org.uk. Mae'r ddolen hon hefyd wedi'i chynnwys yn y neges e-bost a anfonwyd gyda'r pecyn hwn.

Rhaid anfon pob cais wedi'i gwblhau erbyn 9am ar ddydd Gwener 19 Gorffennaf 2024 er mwyn cael ei ystyried ar gyfer y rhestr fer. Ni fydd ceisiadau anghyflawn neu hwyr yn cael eu hystyried. Bydd ymgeiswyr a roddir ar y rhestr fer am gyfweliad yn cael gwybod erbyn dydd Gwener 2 Awst 2024. Byddwn yn cysylltu â'r rhai nad ydynt wedi'u cynnwys ar y rhestr fer i roi gwybod iddynt eu bod yn aflwyddiannus.

Mae'n ddrwg gennym ond ni allwn roi adborth unigol i ymgeiswyr sy'n aflwyddiannus ar y cam hwn.

Os oes angen unrhyw gymorth arnoch wrth gyflwyno'ch cais neu os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch y broses Recriwtio Ymddiriedolwyr, anfonwch neges e-bost at trusteerecruitment@yha.org.uk.

Caiff y ceisiadau eu hasesu gan Bwyllgor Enwebiadau YHA, sy'n goruchwylio'r broses dethol ymgeiswyr ar ran ein haelodau. Caiff Ymddiriedolwyr eu hethol gan Aelodau Cyswllt trwy broses bleidleisio ar-lein.

01

# Dyddiadau'r cyfweliadau

Cynhelir y cyfweliadau yn rhithiol rhwng 2 a 4 Medi 2024.

Ar ôl y cyfweliadau, bydd y Pwyllgor Enwebiadau yn cadarnhau'r ymgeiswyr llwyddiannus am rôl Ymddiriedolwyr a gyflwynir i bleidleisio arnynt erbyn 6 Medi 2024. Bydd pleidleisio ar-lein dros Ymddiriedolwyr yn agor i aelodau YHA ar 27 Medi 2024 ac yn cau ar 25 Hydref 2024. Bydd yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael gwybod y canlyniadau cyn gynted ag y bo modd wedyn.

Disgwylir i'r Ymddiriedolwyr newydd eu hethol fynychu'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhelir yn rhithiol ar ddydd Sadwrn 9 Tachwedd 2024.

Diolch yn fawr.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost at trusteerecruitment@yha.org.uk a bydd y tîm yn hapus i'ch cynorthwyo.



Ni yw YHA.

Rydym yn trawsnewid bywydau ifanc am byth trwy deithio ac antur go iawn.

**Oherwydd mae ble yr ewch chi yn newid pwy fyddwch chi**

aros | ymuno | rhoi | gwirfoddoli    yha.org.uk

YHA (England & Wales), Trevelyan House, Dimple Road, Matlock, Derbyshire DE4 3YH
Rhif y cwmni 282555    Rhif elusen gofrestredig 306122